# Cyngor Cymuned Tudweiliog
## Tudweiliog Community Council

Heulwen Williams
Clerc/clerk
01758 770415

Pen Cefn,
Dinas,
Pwllheli.
LL53 8UB.

Cofnodion Cyngor Cymuned Tudweiliog 13eg Mawrth 2023

Presennol: Gareth Jones, Alyn Williams, Terry Huws, Chris Brady, Dafydd Richard Williams, Sian Parri, Catrin Williams, Alan Hughes, Henry Hughes

Ymddiheuriadau: Sioned Pearson, John Davies

1. Cadeiriwyd gan Gareth Jones ac estynnodd groeso i bawb.

2. Derbynwyd y cofnodion diwethaf fel rhai cywir.

3. Materion yn codi o'r cofnodion:
   a. **Y Gronfa Datblygu Cynaliadwy (Hysbysfwrdd) –** Ymddiheurodd y Clerc nad oedd wedi cael cyfle i ymweld a'r Post i drafod maint a lleoliad yr hysbysfwrdd – bydd yn gwneud hyn yn yr wythnosau nesaf.
   b. **Tir Garnfadryn-** Derbynniodd y Clerc gynllun o'r darn tir gan John Lloyd Williams LWH Property, ond o'i wyro daeth amheuaeth os yw terfynau y cynllun yn gywir. Penderfynwyd gofyn i gyn denant y cae am ei chaniatad (gan fod angen mynd drwy dir y cyn denant i gael mynediad i'r cae), I John Lloyd Williams gael ymweld a'r safle er mwyn cael cynllun cywir. Bydd y Clerc yn ysgrifennu ar y cyn denant i'w gwybyddu.

   c. **Cyfethol – 1 sedd wag –** Hyd yma does neb a enwyd yn awyddus i gymeryd y sedd wag. Awgrymwyd dau enw, bydd y Clerc yn cysylltu.

   Ch. **Mynwent Newydd Tudweiliog** – Bydd y Cerc yn cysylltu a Cater Jonas gan ofyn am gadarnhad o'r tir a gwell dealldwriaeth o'r sefyllfa.

   dd. **Diffib Tudweiliog –** Derbyniodd y Clerc anfoneb o £519.84 am

cabinet i'r diffib. Cafwyd caniatad I'w thalu.

d. **Archwyliad Allanol Audit Wales –** Bu i'r Clarc gael sawl cyfarfod zoom gyda Audit Wales, bydd yn derbyn ebost yn fuan i gadarnhau fod yr Archwyliad wedi ei gwblhau.

e. **Arwydd 'Ysgol' pentref Tudweiliog –** Derbyniodd y Clerc ebost gan yr adran ffyrdd yn ein gwybyddu fod tyfiant wedi ei dorri ond hefyd y bydd y Cyngor Sir yn gosod arwydd arall gyferbyn a'r un presennol.

f. **Arosfan Bws i Dinas –** Derbyniodd y Clerc ebost gan swyddog o'r Cyngor Gwynedd yn cynnwys enwau cwmniau sy'n gwerthu lloches bysiau, ond cyn symund ymlaen cynigiodd Alan Hughes y byddai'n siarad a'r swyddog i gael arwyniad ble i osod y lloches.

4. Gohebiaeth:

**a. Anfoneb Un LLais Cymru £178.00 –** cafwyd caniatad I'w thalu.

**b. Pwyntiau Gwefru i Gerbydau Trydan –** Derbyniodd y Clerc ebost gan yr Adran Amgylchedd Cyngor Gwynedd yn ein gwybyddu o'r bwriad i geisio am grant i osod pwyntiau gwefru, gofynwyd i'r Cyngor Cymuned enwebu llecynau o fewn y ward y teimlid fyddai'n addas i osod pwyntiau gwefru. Bydd y Clerc yn anfon awgrymuadau.

**c. Cyfieithy Cofnodion/Dogfennau –** Derbynwyd ebost gan glerc Cyngor Cymuned Llanengan yn datgan iddynt dderbyn cais i gyfiaethu holl gofnodion o 2021 i'r Saesneg, gofyna beth yw'r drefn mewn Cynghorau Cymuned eraill. Mae gan Cyngor Cymuned Tudweiliog bolisi Iaith gryf, sydd wedi ei fabwysiadu ers blynyddoedd. Dywedodd Sian Parri y bydd Cyfeillion Llyn yn dod at eu gilydd eto'n fuan ac y dylid codi hyn yn eu cyfarfod cyntaf. Bydd Sian yn adarodd yn ol o'r cyfarfod Cyfeillion Llyn mis nesaf.

**ch. Diolch am 20 –** Derbynnwyd ebost 'Tim 'Diolch am 20 Plenty for us' yn egluro'r newidiadau fydd yn digwydd pan ddau cyflymder teithio i lawr i 20mya – cafodd pob Cyngorydd gopi o'r ebost.

**d. Cantorion Llyn –** Derbynwyd cais am gyrfaniad gan cor Cantorion Llyn – penderfynnwyd cyfranu £100.00

**dd. Beic I Ysgol Hafod Lon –** Derbynnwyd cais am gyfraniad gan fam plenty sy'n mynychu ysgol Hafod Lon I brynu beic arbennig i'r plant – penderfynnwyd cyfranu £50.00

e. **Anfonebau Archwylio Cymru/Audit Wales –** Derbynnwyd dwy anfoneb, un am £800.00 ac un am £366.00 am archwyliadau ers 2019 hyd 2022 – derbynnwyd caniatad I’w talu.

5. **Unrhyw fater arall-** Gafwyd ar ddeall fod dwr glaw yn croni’n ddrwg ger Hirdre Fawr – bydd y Clerc yn cysylltu a’r Adran Ffyrdd.

Cynhelir y cyfarfod nesaf Nos Lun 10eg Ebrill 2023 am 7.30yh